


# Cynllun Car Gwyrdd (Aberthu Cyflog)
# CWESTIYNAU CYFFREDIN

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio gyda Tuskerdirect Ltd i ddarparu Cynllun Car Gwyrdd (drwy Aberthu Cyflog) i weithwyr Cyngor Gwynedd.

Ble fo'n bosib ein bwriad yw datblygu'r buddion sydd ar gael i staff, a'u helpu i arbed arian ar gostau bob dydd. Yn ychwanegol, mae hwn yn fater 'gwyrdd', a gan fod angen i'r holl awdurdodau lleol ostwng allyriadau carbon yn eu hardaloedd, mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ostwng ei ôl-troed carbon. Mae'r ffaith ein bod yn gweithio mewn sir wledig a bod gofyn cynyddol arnom i fynd â gwasanaethau at y cyhoedd, yn golygu bod angen defnyddio dulliau arloesol i leihau allyriadau o gerbydau.

Mae'r Cynllun Car Gwyrdd (Aberthu Cyflog) wedi ei anelu i leihau allyriadau $CO_2$. Oherwydd hyn, ceir trydan yn unig a gynigir drwy'r Cynllun. Os yw cyfran o staff y Cyngor yn newid i geir trydan ar gyfer teithio personol ac i deithio sy'n ymwneud â gwaith, bydd gan hyn effaith gadarnhaol ar allyriadau carbon Gwynedd.

**I gael dealltwriaeth lawn o sut mae'r cynllun yn gweithio a'ch ymrwymiadau chi** mae hi'n bwysig eich bod chi'n darllen drwy'r **cwestiynau cyffredin** (FAQs) hyn yn ofalus a hefyd **Polisi'r Cynllun** sydd ar gael ar Dudalen Gartref Tusker a mewnrwyd Cyngor Gwynedd. Os ydych yn archebu cerbyd, mae gofyn i chi ddarllen drwy'r **Cytundeb Aberthu Cyflog** a lunnir ar ôl i chi ofyn am y cerbyd sydd orau gennych.

Cewch ymuno a'r cynllun wedi ichi arwyddo'r Cytundeb gan fod hynny'n dangos eich bod wedi darllen a deall amodau'r cynllun Car Gwyrdd a hefyd eich bod yn awdurdodi gostyngiad yn eich tâl cytundebol am gyfnod y cytundeb. Pe byddech efo unrhyw gwestiynau am y Cynllun, ffoniwch Dîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Tusker a byddant yn falch o helpu.

**Aelodau o'r cynllun pensiwn LGPS.** Dylech fod yn ymwybodol bod y cynllun aberthu cyflog yn lleihau eich cyfraniadau pensiwn ac yn lleihau cyfraniadau pensiwn y Cyngor fel cyflogwr. Bydd hyn yn arwain at lleihad yn eich pensiwn ar eich ymddeoliad.

# GWYBODAETH AM Y CYNLLUN A'R TREFNIADAU ABERTHU CYFLOG

## 1. Beth yw hyn i gyd?

Mae'r cynllun hwn yn eich galluogi fel aelod o staff i gael car trydan o'ch dewis, a gaiff ei gynnal a'i yswirio gan y darparwr (Tusker). Gallwch gytuno ar drefniant aberthu cyflog ble fydd eich cyflog gros misol yn cael ei ostwng sy'n golygu arbed treth, yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn (bydd yn arwain at lleihad yn eich pensiwn ar eich ymddeoliad).

## 2. Beth yw Aberthu Cyflog?

Mae trefniant aberthu cyflog yn golygu eich bod yn cytuno i ildio'r hawl i dderbyn rhan o'ch cyflog gros sy'n ddyladwy i chi o dan eich cytundeb cyflogaeth yn gyfnewid am fuddion nad ydynt yn arian, yn yr achos hwn car newydd sbon. Mae'r cyflog yn cael ei aberthu cyn gwneud taliadau Treth Incwm, Yswiriant Gwladol a thaliadau Pensiwn (os yn gymwys) sy'n golygu fod arbedion treth ar y budd.

Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn cynnig cynlluniau effeithlonrwydd treth eraill sef Cynllun Beicio i'r Gwaith. Gyda'r cynlluniau hyn nid yw eich gostyngiadau cyflog gros yn effeithio ar eich cyfraniadau pensiwn. Fodd bynnag, gyda'r Cynllun Car Gwyrdd maent yn gwneud hynny. Mae hyn yn golygu eich bod yn arbed treth, YG a chyfraniadau pensiwn ar y swm a aberthwyd. Fodd bynnag, mae gan hyn oblygiadau ar eich pensiwn yn y dyfodol. I gael rhagor o wybodaeth ewch i'r cwestiwn CPLIL isod. Ymhellach, dylech fodloni'r meini prawf cymeradwyo sydd wedi ei gyfyngu gan gyflog a hyd a math y Cytundeb (gweler isod ar gyfer rheolau cymhwyso).

## 3. Pam ddylwn i ystyried aberthu cyflog fel modd o gael gyrru car newydd?

Oherwydd eich bod yn aberthu eich cyflog gros gallwch arbed rhwng 28% a 47% mewn Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol (yn dibynnu ar eich graddfa dreth ac os nad ydych ar Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar sail Enillion [SERPS]).

## 4. Beth yw barn Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi am gynlluniau ceir drwy aberthu cyflog?

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn ystyried y trefniant yma fel mater cyfraith cyflogaeth yn hytrach na mater cyfraith treth, gan eich bod yn rhydd i gytuno newid eich tâl gyda Chyngor Gwynedd. Yn ei hanfod, mae cytuno i'r trefniant hwn yr un peth â chytuno i ostyngiad mewn cyflog. Er mwyn bod o fewn y gostyngiad treth, bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi eisiau sefydlu bod y newid i'ch cyflog yn 'barhaol' sef bod yn rhaid i unrhyw newid fod am leiafswm o 12 mis. Yn ychwanegol, mae'n rhaid i chi hefyd gytuno i aberthu eich cyflog cyn i chi dderbyn eich car. Byddwch yn atebol i gael treth Buddion Ymarferol (BIK) gan fod y cynllun yn gweithredu fel cynllun ceir cwmni. Ceir trydan yn unig fydd ar gael a bydd yn gwneud yr arbedion treth o dan y cynllun yn arbennig o fanteisiol.

## 5. Beth yw treth Buddion Ymarferol (BIK) a sut mae'n cael ei dalu?

Mae treth Buddion Ymarferol yn daladwy ar gar cwmni os yw ar gael i ddefnydd preifat gennych chi fel y gweithiwr. Mae'r tâl treth yn is i geir trydan.

Bydd uned gyflogau Cyngor Gwynedd yn cwblhau ffurflen P46(Car) a'i ddychwelyd i Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC). Wedyn bydd yr HMRC yn addasu eich cod treth er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod car yn cael ei ddarparu ar gyfer defnydd personol. I gael rhagor o wybodaeth ewch i safle ar-lein Tusker a chliciwch ar '*About the Scheme*' a dewis '*What is company car tax*'.

## 6. A fedraf brynu'r car?

Uchafswm cyfnod y cynllun yw 60 mis. Gall fod yn bosib prynu eich cerbyd ar ddiwedd y cynllun a bydd y Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid yn barod i baratoi'r manylion i chi.

**7. Oes yna uchafswm i lefel y cyflog y gallaf ei aberthu?**
Oes, ni fedrwch aberthu swm fyddai'n golygu bod eich cyflog yn is na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Gall cynlluniau aberthu cyflog eraill yr ydych eisoes yn rhan ohonynt ddylanwadu ar raddfa eich cyflog ac fe fedrent felly ddylanwadu ar ba mor gymwys ydych i gymryd rhan yn y cynllun hwn.

Mae hefyd angen ystyried y budd-daliadau gwladol a ganlyn:
- Unrhyw gynllun pensiwn yr ydych yn cyfrannu ato (gall hyn fod yn arbennig o bwysig os ydych yn nesu at oed ymddeol gyda phensiwn cynllun cyflog terfynol)
- Yr hawl i fudd-daliadau ar sail cyfraniad fel Pensiwn Gwladol
- Yr hawl i fudd-daliadau ar sail enillion fel Lwfans Mamolaeth
- Yr hawl i daliadau sy'n gysylltiedig â gwaith fel Tâl Salwch Statudol

## CYMHWYSTER

**8. Pwy sy'n gymwys i'r Cynllun Car Gwyrdd (Aberthu Cyflog)?**
Mae angen i chi fod mewn cyflogaeth gyda thâl i fod yn gymwys ar gyfer y cynllun.

Gallech fod yn gymwys ar gontractau parhaol a rhai dros dro, yn dibynnu os yw eich contract am gyfnod penodol ac yn ymestyn tu hwnt i gyfnod y cytundeb (h.y. bydd angen i chi fedru gwneud y **24, 30,36, 48 neu 60** gostyngiad cyflog llawn yn dibynnu ar y cyfnod yr ydych yn ei ddewis).

**9. Pwy fydd ddim yn gymwys?**
Isod, rhestrir staff sydd ddim yn gymwys i gymryd rhan yn y cynllun:
- Nid yw ceir aberthu cyflog ar gael i staff a delir dan Ddogfen Tâl Athrawon Ysgol ac Amodau (STPCD)
- Nid yw aelodau etholedig yn gymwys
- Unrhyw weithwyr ble mae eu telerau a'u hamodau wedi eu diogelu dan TUPE
- Yn anffodus, oherwydd deddfwriaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ni fydd unrhyw weithiwr sydd a'i aberth cyflog yn mynd a'i gyflog o dan yr Isafswm Tâl Cenedlaethol, neu o dan gyfyngiadau enillion isaf, yn gallu cymryd rhan yn y cynllun.

## EFFAITH ABERTHU CYFLOG

**10. Beth sy'n digwydd os wyf yn penderfynu gostwng fy oriau gwaith yn ystod y cyfnod cytundeb dethol?**
Mae angen i chi fod yn ofalus oherwydd os yw eich oriau yn cael eu gostwng bydd eich tâl yn gostwng a gallai hyn fynd â'ch cyflog (ar ôl gostyngiad y cyflog i'r Cynllun Car Gwyrdd) i lefel o dan yr isafswm cyflog. Bryd hynny, ni fyddwch yn gallu cymryd rhan yn y cynllun a bydd yn rhaid i chi dalu tâl terfynu buan. Yn y sefyllfa hon, pan fyddwch yn ystyried cymryd rhan yn y cynllun, byddai'n ddoeth i fewnbynnu eich cyflog ar sail yr oriau gostyngedig i sicrhau bod y Cynllun Car Gwyrdd (Aberthu Cyflog) ddim yn mynd â chi o dan y tâl lleiafswm.

**11. Rwyf yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL). Sut mae aberthu cyflog yn effeithio ar fy mhensiwn yn y dyfodol?**
Dylech fod yn ymwybodol bod y cynllun aberthu cyflog yn lleihau eich cyfraniadau pensiwn ac yn lleihau cyfraniadau pensiwn y Cyngor fel cyflogwr. Bydd hyn yn arwain at lleihad yn eich pensiwn ar eich ymddeoliad. O ran unrhyw drefniadau pensiwn gyda Chyngor Gwynedd dylech gysylltu ag Ymgynghorydd Pensiynau'r CPLlL i gael arweiniad a rhagor o wybodaeth pensiynau@gwynedd.llyw.cymru.

**12. Sut fedrai trefniant aberthu cyflog effeithio ar fy hawliau yn y dyfodol i fudd-daliadau Pensiwn Gwladol a chredydau treth?**

Ar yr amod eich bod yn talu'r gofyniad lleiafswm i daliadau Yswiriant Gwladol ni ddylai'r cynllun effeithio ar eich Pensiwn Gwladol sylfaenol, er hynny, efallai y bydd yn effeithio ychydig ar eich Ail Bensiwn Gwladol. Gall trefniant aberthu cyflog effeithio ar eich hawl i fudd-daliadau gwladol a chredydau treth a dylech ystyried yn ofalus effeithiau posib cyn i chi benderfynu bwrw ymlaen. Dylech ofyn am gyngor gan Linell Gymorth Credyd Treth HMRC ar 0845 300 3900.

**13. A yw aberthu cyflog yn effeithio ar fy nhaliadau benthyciad myfyriwr?**

Ydyw, mae ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr yn cael eu cyfrifo ar sail eich enillion. Fel mae eich cyflog gros yn cael ei ostwng bydd hyn hefyd yn digwydd i'ch taliadau benthyciad myfyriwr. Gall hyn gynyddu eich cyfnod ad-dalu. I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan HMRC: http://www.hmrc.gov.uk/paye/rates-thresholds.htm a gwefan Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr: http://www.slc.co.uk/

**14. Beth yw effaith aberthu cyflog ar unrhyw orchmynion llys sydd gennyf?**

Os oes gorchymyn llys yn erbyn eich tâl, mae hi'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i gasglu hyn o'ch cyflog net fel a gyfarwyddwyd gan y llysoedd. Os ydych yn y sefyllfa hon fe'ch cynghorir i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

## AM Y CYTUNDEB

**15. Rhwng pwy mae'r contract prydlesu cerbyd?**

Mae'r Cytundeb Aberthu Cyflog rhwng y Cyflogwr (Cyngor Gwynedd) a chwithau (y Gweithiwr) ac mae contract y cerbyd rhwng y Cyflogwr (Cyngor Gwynedd) a Tusker (y cwmni prydlesu).

**16. Pa waith papur sydd angen ei lenwi?**

Mae'r system yn creu Cytundeb Aberthu Cyflog Gweithiwr pan fyddwch yn barod i archebu eich cerbyd dewisedig. Dylech hefyd gyfeirio at Bolisi'r Cynllun a fanylir ar y system.

**17. Fedrai gael fy nghytundeb Aberthu Cyflogaeth yn y Gymraeg?**

Cewch, mae'r dogfennau safonol ar gael yn awtomatig yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**18. Pa gerbydau sy'n denu'r arbedion gorau?**

Oherwydd y ddeddfwriaeth Buddion Ymarferol y cerbydau mwyaf cost effeithiol ar y cynllun yw'r rhai trydan ac felly dyma'r unig ddewis fydd ar gael.

**19. Beth sydd wedi ei gynnwys yn y cynllun Aberthu Cyflog?**

- Y cerbyd a ddewiswch
- Gwaith cynnal a chadw yn cynnwys rhoi gwasanaeth, batris, egsostiau, weipars sgrin wynt a theiars o dan amodau traul arferol. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw niwed i'r cerbyd a diweddariadau i systemau llywio lloeren.
- Yswiriant modur cynhwysfawr llawn yn cynnwys holl deithio busnes i ddeilydd y polisi a'i bartner domestig. Mae unrhyw yrwyr ychwanegol yn cael ei yswirio i ddibenion cymdeithasol, domestig a phleser yn unig. Ni fydd angen i chi enwi eich partner domestig.
- Diogelwch yn erbyn unrhyw daliadau cosb a achoswyd o ganlyniad i adael y cynllun yn fuan gan eich bod yn gadael eich Cyflogwr ac yn dychwelyd y cerbyd oherwydd eich ymddiswyddiad, colli bywyd, colli trwydded ar sail feddygol.
- Treth cerbyd blynyddol.
- Cymorth ochr ffordd (Homestart ac adfer cerbyd yn y DG ac Ewrop).

# ARCHEBU CERBYD

**20. Sut ydw i'n gwneud archeb?**
Archebir cerbydau drwy wefan www.tuskerdirect.com. Byddwch angen rhif adnabod gweithiwr unigryw (sef eich rhif cyflog) a theipiwch 'Gwyn' fel y cyfrinair. Unwaith y byddwch wedi cael mynediad bydd angen i chi greu cyfrif defnyddiwr a byddwch wedyn yn barod i chwilio'r wefan a chymharu cerbydau.

Prosesir yr holl archebion cerbydau ar-lein drwy wefan Tuskerdirect. Os ydych yn cael unrhyw drafferthion wrth wneud archeb, dylech gysylltu â gwasanaethau cwsmeriaid ar 0333 400 2020.

**21. Rwyf yn gallu cael mynediad i'r system dyfynbrisiau gyrwyr, ydi hyn yn golygu fy mod i'n gymwys yn awtomatig i ymuno â'r cynllun?**
Na, bydd angen gwirio a ydych yn gymwys ai peidio o hyd a chymeradwyo hyn gan Gyngor Gwynedd cyn y gallwch gymryd rhan yn y cynllun. Os oes gennych unrhyw amheuon cysylltwch â buddiannau@gwynedd.llyw.cymru

**22. Pryd fydd y gostyngiad cyntaf o fy nghyflog yn digwydd?**
Bydd hyn yn dibynnu ar ddyddiadau cwblhau cyflogres Cyngor Gwynedd a'r dyddiad y derbynnir eich cerbyd, felly bydd eich gostyngiad olaf yn cael ei gymryd fel ôl-daliad wedi dychwelyd y cerbyd.

**23. Rwyf yn aberthu cyflog yn gyfnewid am fuddion eraill, pa gyflog ddylwn ei gofnodi ar y system?**
Dylech bob amser roi'r cyfanswm cyflog (cyn treth) yr ydych yn rhagweld y byddwch yn ei ennill dros y flwyddyn nesaf gan gynnwys y cyflog sylfaenol, bonws, comisiwn gan gofio tynnu unrhyw gytundebau aberthu cyflog presennol.

**24. Fedrai ganslo archeb unwaith y bydd wedi'i gwneud?**
Os ydych yn dymuno canslo archeb bresennol yna byddwch yn atebol am unrhyw daliadau canslo y gall y ddelwriaeth ceir eu gosod ar y cerbyd arbennig hwnnw. Cysylltwch â Thîm Gwasanaeth Cwsmeriaid Tusker i ofyn am y costau canslo.

**25. Sut mae newid archeb unwaith y bydd wedi'i gwneud?**
Unwaith fo archeb wedi'i gwneud, nid oes unrhyw warant y gellir ei newid. Bydd Tusker yn gwneud popeth y gall i gynnwys unrhyw newidiadau sydd eu hangen ond byddwch yn atebol am unrhyw gostau sy'n gysylltiedig gyda'r newidiadau y gofynnwch amdanynt. Mae hi'n bwysig eich bod yn cysylltu â Thîm Gwasanaeth Cwsmeriaid Tusker ar y cyfle cyntaf posib os ydych am newid archeb.

**26. Nid yw'r cerbyd yr hoffwn ei archebu ar y system, beth ddylwn ei wneud?**
Ceir trydan yn unig fydd ar gael i chi. Os nad yw'r cerbyd ar y wefan, mae hyn fel arfer gan fod Tusker yn aros am ragor o wybodaeth gan y gwneuthurwr. Os mai dyma yw'r achos yna bydd Tusker yn gallu rhoi dyfynbris maniwal i chi.

**27. Rwyf eisiau archebu car ar y cynllun ond mae gennyf gerbyd yr wyf eisiau ei werthu, pryd ddylwn i drefnu i'w werthu?**
Er y bydd Tusker yn cysylltu â chi gydag amseroedd bras i gerbyd a archebwyd, weithiau gall y gwneuthurwr newid y dyddiadau hyn (tu allan i'w rheolaeth). Os nad oes gennych fodd arall o deithio ni ddylech werthu eich cerbyd presennol hyd nes y byddwch wedi derbyn eich car aberth cyflog newydd.

**29. Beth fydd yn digwydd pan fyddaf wedi gofyn am gerbyd?**
Unwaith y byddwch wedi gofyn am gerbyd, bydd Tusker yn cysylltu â Chyngor Gwynedd i gael cymeradwyaeth terfynol i'ch archeb car. Wedi i'r Cyngor gymeradwyo eich cais bydd Tusker wedyn yn cysylltu â chi i gadarnhau'r archeb a'i rhoi i'r ddeilwriaeth ceir perthnasol.

**30. Pryd gallaf i ddisgwyl derbyn fy ngherbyd?**
Ar gyfartaledd, mae cerbydau yn cymryd tua 12 wythnos o gael eu cymeradwyo i gael eu derbyn, ond mae hyn yn dibynnu ar y gwneuthurwyr a'r math o gerbyd yr ydych wedi ei ddewis. Wrth archebu byddwch yn cael bras amcan o'r dyddiad derbyn, ond gall hyn fod yn destun newid ar unrhyw adeg.

**31. Fedrwn i gael cytundeb tebyg drwy fynd at y deliwr ceir breiniol lleol?**
Na dim ond drwy'r cynllun aberthu cyflog mae'r arbedion Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol ar gael. Oherwydd fod y cynllun hwn yn cael ei weinyddu drwy gytundeb corfforaethol gyda Chyngor Gwynedd, mae Tusker hefyd yn gallu trosglwyddo cyfraddau cyllid corfforaethol, disgownt fflyd a bonws manteision nifer sydd ddim ar gael ar unrhyw gynlluniau adwerthu i brynu car.

**32. Fedrai gael fy nghar yn gynt pe byddwn yn mynd at y ddeilwriaeth ceir lleol?**
Os fyddech yn mynd yn uniongyrchol at ddeliwr i archebu cerbyd ar brydles bersonol, efallai y byddai'r deliwr yn gallu dod â char i chi yn gynt ond byddai hyn ar lefel disgownt llawer is ac ni fyddech yn manteisio o'r graddfeydd cyllid corfforaethol, manteision maint fflyd nag arbedion Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol. Yn ychwanegol, mae rhai trefniadau prydles bersonol angen blaen-dâl.

## CYNNAL A CHADW

**33. Beth fydd yn digwydd pan fydd fy nghar angen gwasanaeth?**
Mae cost cynnal a chadw wedi ei gynnwys yn y cynllun. Y cwbl sydd angen i chi ei wneud yw ffonio Driverline ar 0333400 2020 neu fynd i wefan Tusker a byddant yn ceisio trefnu i nôl eich cerbyd o'ch gweithle neu eich cartref. Nid yw car benthyg wedi ei gynnwys fel rhan o'r cytundeb, ond os oes angen gallwn gysylltu â'r modurdy i weld os yw hi'n bosib darparu un, er gall hyn weithiau beri tâl bychan.

Bydd Tusker yn sicrhau bod ystod o fodurdai sydd ar gael i roi gwasanaeth i gerbydau yn lleol.

**34. Pwy sy'n gyfrifol am drefnu bod y cerbyd yn cael gwasanaeth?**
Chi sy'n gyfrifol am sicrhau eich bod yn glynu at yr amserlen gwasanaeth a argymhellir gan y gwneuthurwr ac mae hi'n bwysig eich bod yn gwneud hyn i sicrhau nad yw'r warant yn mynd yn annilys gan osgoi achosi taliadau ychwanegol. I wasanaethau yswiriant barhau yn ddilys, ni ddylid mynd 1,000 o filltiroedd, neu 14 diwrnod, dros y ffigwr a osodir i wasanaeth cyntaf y cerbyd na'r ail.

**35. Beth fydd yn digwydd os fydd fy nghar angen teiars newydd?**
Mae cost teiars wedi ei gynnwys. Ffoniwch Driverline Tusker a byddant un ai yn eich cyfeirio at y ganolfan deiars enwebedig agosaf neu yn trefnu i uned symudol enwebedig i ddod atoch i newid eich teiars.

**36. Beth fydd yn digwydd os fydd fy nghar angen sgrin wynt newydd?**
Ffoniwch Driverline a bydd Tusker yn trefnu i un ai drwsio neu newid eich sgrin wynt (pa un bynnag sy'n addas). Dalier sylw y byddwch yn talu tâl dros ben am unrhyw wydr newydd.

**37. Fyddai'n derbyn cyfarwyddiadau ar sut i adrodd am ddamwain, i drefnu gwasanaeth, teiars ac ati unwaith y byddaf wedi derbyn fy nghar?**
Pan fyddwch yn derbyn eich car bydd daliwr cerdyn Tusker ar y sgrin wynt a bydd rhif Driverline Tusker ar ei gefn. Ffoniwch y rhif yma i adrodd am ddamwain, i drefnu gwasanaeth, adrodd bod car wedi torri i lawr neu i siarad gydag aelod o Dîm Gwasanaeth Cwsmeriaid Tusker.

**38. Beth ddylwn ei wneud os yw'r car yn torri i lawr?**
Mae'r holl gerbydau yn cynnwys cymorth ochr ffordd yn y DG ac Ewrop felly os yw'r car yn torri i lawr gartref, yn y swyddfa neu unrhyw le yn Ewrop rydych wedi eich diogelu, ffoniwch Driverline Tusker a dewis yr opsiwn perthnasol.

**39. Beth sy'n digwydd os yw fy ngherbyd oddi ar y ffordd oherwydd methiant mecanyddol neu ddifrod gan ddamwain?**
Mae cymorth ochr ffordd wedi ei gynnwys yn y cynllun i sicrhau na fyddwch byth yn sownd. Os yw eich car oddi ar y ffordd oherwydd damwain ac mai chi oedd ar fai ac nad yw'r cwmni yswiriant yn darparu cerbyd dros-dro, bydd Tusker yn gallu helpu drwy logi cerbyd ar raddfeydd is. Os yw eich cerbyd oddi ar y ffordd oherwydd methiant mecanyddol

bydd Tusker yn ceisio darparu cerbyd arall i chi ond ni ellir gwarantu hyn. Rhaid adrodd am ddamweiniau ble rydych chi ar fai cyn pen 48 awr i sicrhau bod gennych yswiriant llawn.

## GADAEL Y CYNLLUN YN FUAN

**40. Beth sy'n digwydd os ydw i'n penderfynu nad ydw i eisiau'r cerbyd mwyach?**
Rydych yn ymrwymo i'r cyfnod a ddewiswyd. Os ydych yn penderfynu nad ydych bellach eisiau'r cerbyd gallwch ofyn am bris terfynu buan ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y cynllun, ond chi fydd yn gyfrifol am y tâl terfynu.

**41. Beth sy'n digwydd os wyf yn ymddiswyddo?**
Chwe mis cyntaf: Os ydych yn hysbysu Cyngor Gwynedd eich bod yn dymuno ymddiswyddo yn ystod chwe mis cyntaf y cynllun (Cynllun Car Gwyrdd) gan ddechrau o ddyddiad derbyn eich cerbyd, neu os ydych yn ymddiswyddo ac yn gadael y Cyngor heb roi rhybudd ymlaen llaw yn ystod y chwe mis cyntaf wedi derbyn y cerbyd, byddwch yn atebol i dâl terfynu buan i adael y cynllun. Uchafswm y tâl terfynu buan yw £1,000 + TAW.

(DS: Nid eich dyddiad gadael a ddefnyddir i weithio allan os bydd tâl terfynu buan, ond y dyddiad yr ydych yn hysbysu Cyngor Gwynedd eich bod yn dymuno ymddiswyddo o'ch swydd).

Ar ôl chwe mis: Os ydych yn ymddiswyddo ac yn gadael y Cyngor ar ôl y cyfnod gwahardd hwn o chwe mis mae trefniant yn ei le i ddiogelu'r tâl terfynu buan.

**42. Beth yw'r diffiniad o ymddiswyddo?**
Ymddiswyddiad yw datganiad ysgrifenedig sy'n nodi bwriad unigolyn i adael swydd yn wirfoddol.

**43. Sut y cyfrifir y tâl terfynu buan?**
Caiff y tâl terfynu buan (yn cynnwys TAW) ei gyfrif fel a ganlyn:
1. Swm y rhent misol sydd ar ôl i'w dalu ar y cynllun
2. Llai disgownt a osodwyd i derfynu buan
3. Wedi'i ychwanegu at amcan werth gwreiddiol y cerbyd ar ddiwedd y cynllun
4. Llai gwerth y cerbyd ar amser y terfynu

44. **Beth sy'n digwydd os wyf yn colli fy nhrwydded yrru am resymau meddygol?**
Os ydych yn colli eich trwydded yrru am resymau meddygol mae trefniant yn ei le i ddiogelu'r tâl terfynu buan.

**45. Beth fydd yn digwydd os rwyf yn beichiogi yn ystod fy nghyflogaeth neu'n cael absenoldeb salwch tymor hir o'r gwaith?**
Os yw'r gostyngiad yn eich cyflog yn mynd â chi o dan y lefel isafswm statudol cyflog sy'n gymwys yn ystod cyfnod mamolaeth/tadolaeth/mabwysiadu a delir, neu pan nad oes gennych unrhyw dâl, bydd y gostyngiad yn eich cyflog yn peidio. Yn yr amgylchiadau hyn byddwch yn parhau i gael defnyddio eich cerbyd.

Os ydych ar absenoldeb salwch tymor hir ac na ellir gwneud gostyngiadau yn ystod absenoldeb oherwydd gostyngiad mewn lefelau enillion bydd cyfnod y cynllun yn ymestyn ar ôl i chi ddychwelyd i'r gwaith. Bydd yr holl ostyngiadau a fethwyd yn cael eu cymryd o'ch cyflog a gall hyn olygu bod eich cyflog yn cael ei leihau ar ôl i'r cerbyd gael ei ddychwelyd.

**46. Beth sy'n digwydd os wyf yn marw yn ystod y cynllun?**
Mae'r cynllun yn gwarchod ar gyfer amgylchiadau o'r fath a bydd y cytundeb aberthu cyflog yn peidio - a gellid dychwelyd y cerbyd heb gosb. Eithriadau i hyn yw hunanladdiad, marwolaeth oherwydd camddefnyddio alcohol a gwybodaeth flaenorol o salwch terfynol. Gall eithriadau ychwanegol fod yn gymwys.

## YSWIRIANT

**47. Os yw fy ngherbyd wedi bod mewn damwain a bod y cwmni yswiriant yn datgan fod y cerbyd y tu hwnt i'w drwsio yn economaidd, a yw'r warchodaeth yswiriant yn delio gydag unrhyw ddiffyg rhwng y ffigwr setliad yswiriant a phrisiant y cwmni prydles o'r cerbyd?**
Ydi, os yw gwerth yswiriant y cerbyd wedi ei golli'n llawn (damwain, tân neu ddwyn) rydych wedi eich diogelu am y gwahaniaeth rhwng ffigwr setliad yswiriwr y cerbyd a'r tâl terfynu cytundeb car aberthu cyflog.

**48. Beth os wyf yn dymuno canslo'r yswiriant cyn diwedd y cyfnod a gytunwyd?**
Os gwaredir eich car neu os yw wedi ei ddileu o ran yswiriant yn ystod y cyfnod bydd Tusker yn hapus i ganslo eich polisi heb dâl.

**49. Oes angen i mi ddarparu prawf am fonws dim hawliad i gael y polisi yswiriant modur?**
Na, mae'r yswiriant modur yn bolisi fflyd. Os oes gennych uchafswm bonws yn barod, gallwch gadw hwn i'w ddefnyddio ar gar arall. Pan ddewch i ddiwedd eich cyfnod dewisedig bydd Tusker yn hapus i gadarnhau nad oes gennych unrhyw hawliad am y cyfnod yr ydych wedi bod ar y cynllun. Rydych yn rhydd i ychwanegu hyn at eich bonws presennol neu ei gadw ar wahân i'w ddefnyddio ar gar arall.

**50. Beth os oes gennyf fwy na dau hawliad derbyn bai ar y polisi?**
Caniateir i chi gael dau hawliad derbyn bai yn ystod y cyfnod 12 mis cyntaf a thri hawliad derbyn bai yn y cyfnod 24 mis cyntaf heb i hyn effeithio ar eich premiwm yswiriant ym mlwyddyn tri. Os oes gennych fwy o hawliadau derbyn bai na hyn bydd eich premiwm yswiriant am y blynyddoedd blaenorol yn cynyddu.*

Pe byddech yn cael mwy na dau hawliad derbyn bai yn y 12 mis cyntaf neu dri hawliad derbyn bai yn y 24 mis cyntaf byddwch yn derbyn bil yn uniongyrchol am unrhyw gynnydd dilynol yn y premiwm.

* Dalier Sylw na fydd eich premiwm yn cael ei effeithio ymhob achos tan y dyddiad adnewyddu nesaf. Cyflwynir y polisi ar sail yswiriant 12 mis (i gael rhagor o wybodaeth ffoniwch 01924 241920 neu ebostiwch ss4c@howdengroup.com)

**51. Oes yna unrhyw gyfyngiadau yswiriant i yrwyr ifanc a'r rhai amhrofiadol?**
Grwpiau yswiriant:

- Dan 21 → Grŵp yswiriant 11 neu is
- Dan 25 → Grŵp yswiriant 21 neu is
- Dan 27 → Grŵp yswiriant 29 neu is

**52. A ellir ychwanegu rhai sy'n dysgu gyrru i'r yswiriant?**
Gellir ychwanegu rhai sy'n dysgu gyrru i'r yswiriant. Cysylltwch â thîm Gwasanaeth Cwsmeriaid Tusker a byddant yn hapus i gael premiwm yswiriant i chi.

## AR DDIWEDD Y CYTUNDEB

**53. Beth yw fy opsiynau ar ddiwedd y cytundeb?**
Bydd Tusker yn cysylltu â chi 6 mis cyn dychwelyd eich cerbyd i drafod yr opsiynau sydd ar gael i chi. Gallwch ddewis i ddychwelyd y cerbyd i Tusker a gallech wedyn gymryd car arall o'r cynllun, neu ddewis prynu'r cerbyd.

**54. Fedrai brynu'r car ar ddiwedd y cytundeb?**
Medrwch, efallai y bydd hi'n bosib i chi brynu'r car ar ddiwedd y cyfnod a gytunwyd a bydd Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid Tusker yn hapus i roi pris prynu i chi yn ystod y deufis olaf o'r cytundeb.

**55. Beth sy'n digwydd ar ddiwedd y cytundeb os yw'r cerbyd wedi ei niwedio?**
O dan y tab '*About the Scheme*' ar Fleetdesk fe welwch ddolen i ganllaw traul teg BVRLA yn '*Returning the vehicle - acceptable wear and tear damage*' fydd yn rhoi dealltwriaeth i chi o beth a ystyrir yn niwed traul derbyniol ac annerbyniol ar gerbyd a ddychwelir. Bydd unrhyw niwed a ystyrir yn draul teg annerbyniol yn achosi cost a bydd anfoneb yn cael ei rhoi i Gyngor Gwynedd a byddant hwythau'n codi tâl arnoch chi am y gost hon.

**56. Beth sy'n digwydd ar ddiwedd y cytundeb os yw'r cerbyd dros y milltiredd a gytunwyd?**
Pan ddychwelir eich cerbyd, os y gwelir ei fod dros y milltiredd a gytunwyd, bydd Tusker yn codi cost milltiredd ychwanegol. Bydd y gost hon yn cael ei chyfrif drwy luosi nifer y milltiroedd sydd dros ben milltiredd y cynllun gyda'r raddfa y filltir a nodwyd yn eich dyfynbris. Bydd anfoneb yn cael ei rhoi i Gyngor Gwynedd am y gost hon a byddant hwythau yn eu tro yn codi tâl arnoch chi am y gost hon.

## YMHOLIADAU GWEINYDDOL CYFFREDINOL

**57. Rwyf wedi newid cyfeiriad yn ddiweddar - beth sydd angen i mi ei wneud?**
Dylech gysylltu â Thîm Gwasanaeth Cwsmeriaid Tusker cyn gynted â phosib i newid unrhyw fanylion personol i sicrhau bod popeth yn gyfredol, rhag ofn y byddwn angen anfon rhywbeth atoch yn ystod y cytundeb. Os nad ydych yn rhoi gwybod i Tusker eich bod wedi newid cyfeiriad yna gallai hyn beri ffioedd gweinyddu ychwanegol.

**58. Beth sy'n digwydd os rwyf yn gwneud mwy neu lai na'r milltiredd a ddewisais wrth ddewis fy ngherbyd?**
Wrth ddewis eich cerbyd mae gennych gyfle i ddewis y milltiredd blynyddol. Os ydych yn ystod cyfnod y cytundeb yn dymuno newid y milltiredd i ddangos eich milltiredd gwirioneddol yn fwy cywir yna gall Tusker newid hyn ar ôl 12 mis cyntaf y cytundeb. Os ydych yn dychwelyd eich cerbyd gyda mwy na'r milltiredd a ddewisiwyd yna byddwch yn atebol i dâl milltiredd dros ben. Mae hyn yn ymdrin gyda chost dibrisiant ychwanegol â chostau gwasanaeth a achoswyd oherwydd milltiredd ychwanegol (gweler hefyd cwestiwn 56).

**59. Pwy sy'n gyfrifol am dalu unrhyw ddirwyon a achoswyd gyda'r cerbyd neu unrhyw gerbyd a ddarparwyd pan fo'r prif gerbyd oddi ar y ffordd?**
Bydd unrhyw gostau parcio, tagfeydd neu ddirwyon a achoswyd gennych wrth ddefnyddio'r cerbyd yn gyfrifoldeb i chi. Os yw awdurdod cyflwyno yn cysylltu â Tusker yna byddant yn talu'r ddirwy ac yn rhoi anfoneb i Gyngor Gwynedd fydd wedyn yn codi tâl am y costau yma arnoch chi ynghyd â ffi gweinyddu.

**60. Fedrai fynd â fy nghar dramor?**
Mae eich yswiriant car yn cynnwys gwarchodaeth lawn drwy'r Gymuned Ewropeaidd yn cynnwys Gweriniaeth Iwerddon, Croatia, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, Norwy a'r Swistir (cyfyngedig i 28 diwrnod i unrhyw un daith).

Os ydych am fynd â'r car i Ewrop bydd angen i chi gysylltu â Tusker i drefnu tystysgrif VE103b sy'n eich awdurdodi i fynd â'r cerbyd dramor. Mae tâl gweinyddol bach i gyflwyno'r dystysgrif fel y manylir ym Mholisi'r Cynllun, er hynny, mae'r ddogfen yn ddilys am 12 mis ac mae'n ofyniad cyfreithiol. Heb y ddogfen hon mae'n bosib y byddwch yn mynd i drafferthion gyda'r awdurdodau.

**61. Pa raddfa ad-dalu tanwydd fyddaf yn ei dderbyn os wyf yn teithio milltiroedd busnes yn y car aberth cyflog?**
Cyngor Gwynedd sy'n penderfynu beth fydd y raddfa ad-dalu tanwydd a dderbyniwch. Mae'r Cyngor wedi gosod y graddfeydd yn unol â graddfeydd tanwydd a gynghorir gan HMRC. Y rheswm dros hyn yw fod y car wedi ei ddosbarthu yn gar cwmni ac nid yn gerbyd preifat. I weld y graddfeydd presennol a gynghorir ewch i wefan HMRC: http://www.hmrc.gov.uk/cars/advisory_fuel_current.htm

Dalier sylw: Oherwydd Polisi costau milltiroedd Cyngor Gwynedd, ni fydd unigolyn sy'n rhan o'r cynllun aberthu cyflog yma yn gallu hawlio'r raddfa safonol am unrhyw daith busnes. Yn hytrach bydd yr unigolyn yn cael hawlio y

raddfa berthnasol, a argymhellir gan yr HMRC ar geir les, dros y cyfnod maent yn rhan o'r Cynllun Ceir Gwyrdd. Gellir gweld y graddfeydd cyfredol ar safle we yr HMRC. Mae'n ofynnol i swyddogion defnyddio'r car les, a dim car arall, i bwrpas siwrniau gwaith swyddogol.

https://www.gov.uk/government/publications/rates-and-allowances-travel-mileage-and-fuel-allowances

**62. Fedrai ysmygu yn fy nghar?**
Mae'r holl geir sy'n rhan o'r cynllun car aberthu cyflog wedi eu dosbarthu fel ceir cwmni ac felly mae hi yn erbyn y gyfraith i ysmygu ynddynt.

**63. Fedrai siarad â rhywun yn Gymraeg am y cynllun?**
Ar hyn o bryd nid yw Gwasanaethau Cwsmeriaid Tusker yn gallu cyflwyno gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, er hynny mae gwybodaeth a dogfennau safonol ar gael yn y Gymraeg ar eu gwefan.

64. **Nid wyf yn siŵr sut mae'r cynllun yn gweithio ac fe hoffwn siarad gyda rhywun, pwy ddylwn ei ffonio?**
I gael mwy o wybodaeth am y cynllun ffoniwch Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid Tusker ar 0333 400 2020 a byddant yn hapus i ateb eich cwestiynau.

**Cysylltiadau Allweddol:**

Tusker – https://www.tusker-direct.com/neu'r Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid 0333 400 2020

Tîm Buddion Staff Cyngor Gwynedd - buddiannau@gwynedd.llyw/cymru / 01286 679 95
Adran Bensiynau, Cyngor Gwynedd - pensiynau@gwynedd.llyw.cymru 01286 679 982

Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr - http://www.slc.co.uk/